



Wythnos Beicio i'r Ysgol 2021

27 Medi – 1 Hydref

Sut mae Beicio yn Brwydro yn erbyn Newid Hinsawdd?

Amcan

Atgoffa; newid yn yr hinsawdd a dysgu
am 'o ble y daw allyriadau'r DU?'

Edrych ar sut gellir lleihau allyriadau,
gyda phwyslais ar drafnidiaeth.

Amlinelliad o'r sesiwn

Defnyddiwch y [PowerPoint beicio i frwydro
newid hinsawdd](#) i hwyluso trafodaeth am newid
yn yr hinsawdd ac allyriadau. Defnyddiwch yr eitem
procio'r cof os oes angen.

Disgyblion i gwblhau'r daflen beicio i frwydro yn
erbyn newid hinsawdd gyda'r hyn a ddysgwyd
ganddynt o'r drafodaeth grŵp. Mae'r daflen waith
hon yn cynnwys ysgrifennu eu cenhadaeth newid yn
yr hinsawdd eu hunain.

Estyniad

Disgyblion i wneud fideo byr neu boster yn egluro
sut mae beicio yn brwydro yn erbyn newid hinsawdd.

Ysbrydolwyd gan:

Swyddog Ysgol Sustrans.



Amser:

20 munud (1 awr
gydag estyniad)



Adnoddau:

[PowerPoint Beicio i
frwydro newid hinsawdd](#)

Bwrdd gwyn/bwrdd gwyn
rhyngweithiol mawr/siart
troi papur

Taflen waith y disgybl beicio
i frwydro newid hinsawdd



Gweithgaredd unigol/grŵp:

Y ddau



Cysylltiadau cwricwlwm

Y Dyniaethau





Wythnos Beicio i'r Ysgol 2021

27 Medi – 1 Hydref

Procio cof yr athro: PowerPoint ar gyfer yr her beicio i frwydro newid hinsawdd

Y tywydd a hinsawdd

Disgyblion i drafod y gwahaniaeth rhwng y ddau derm.

Newid hinsawdd

Disgyblion i weithio mewn parau i gynnig diffiniad o'r term newid hinsawdd.

O ble y daw ein hallyriadau?

Disgyblion i greu map meddwl o ffynonellau amrywiol o allyriadau.

Disgyblion i drafod 'o ble y daw allyriadau'r DU?' Cyngor doeth
– tanwydd byncher yw unrhyw danwydd a ddefnyddir ar fwrdd llong.

Disgyblion i drafod 'o ble y daw allyriadau trafndiaeth?'

Sut gallwn ni leihau allyriadau?

Edrychwch ar fap meddwl ffynonellau allyriadau – disgyblion yn
trafod beth ellid ei wneud fel unigolion ac fel grŵp i leihau allyriadau.

Disgyblion i drafod beth fyddai'n creu'r effaith fwyaf.

Disgyblion i drafod yr hyn sydd angen i gymdeithas/llywodraeth ei wneud.

Mae'r peiriant hwn yn brwydro newid hinsawdd

Disgyblion i drafod sut gall newid dull teithio leihau allyriadau.

Fy Adduned Carbon

Disgyblion i lunio adduned carbon – rhywbeth y gallant ei wneud
fel unigolion/grŵp/ysgol i leihau eu hól-troed carbon, er enghraifft
cerdded yn lle gyrru, bwyta llai o gig.



Wythnos Beicio i'r Ysgol 2021

27 Medi – 1 Hydref


Beicio i frwydro newid hinsawdd

Beth yw newid hinsawdd?

O ble y daw allyriadau'r DU?

Priodwch y sector gyda'r ganran.


Adeiladau
Amaeth
Diwydiant
Gwastraff
Gweithgynhyrchu
Hylosgi Tanwydd
Tanwydd byncher
Trafnidiaeth
Trydan a Gwres



O ble y daw allyriadau trafndiaeth?

Priodwch y dull gyda'r ganran.

Bysiau
Ceir/taxis
Cerbydau Nwyddau Trwm
Hedfanaeth (domestig)
Llongau (domestig)
Lorïau LGV
Rheilffyrdd
Arall





Wythnos Beicio i'r Ysgol 2021

27 Medi – 1 Hydref

Beth allwn ni ei wneud i leihau allyriadau?

**Beth yw'r pethau pwysicaf y gallech ei
wneud fel unigolyn i leihau allyriadau?**

Fy Adduned Carbon

Rwy'n addo...



Wythnos Beicio i'r Ysgol 2021

27 Medi – 1 Hydref

O ba ddeunyddiau y dylid gwneud dillad beicio a pham?

Amcan

Ymchwilio i ddillad beicio a chynllunio dillad beicio i'w gwisgo i'r ysgol ar adegau gwahanol o'r flwyddyn.

Amlinelliad o'r sesiwn

Defnyddiwch y rhaglen [PowerPoint dillad beicio](#) i hwyluso trafodaeth am y gwahanol fathau o ddeunyddiau beicio. Disgyblion i drafod y deunyddiau amrywiol a'u nodweddion.

Disgyblion i gwblhau'r daflen waith ar ddillad beicio gyda'r hyn o ddysgwyd o'r PowerPoint a'r drafodaeth grŵp.

Estyniad

Disgyblion i drafod y daflen waith dillad beicio i greu poster yn dangos amrywiaeth y cynlluniau ar gyfer ffurfwisg beicio. Disgyblion i drafod nodweddion a deunyddiau pob math o ddillad beicio a bwrw pleidlais ar y wisg orau.

Cyngor doeth – gall disgyblion gynllunio gwisg ysgol sy'n gyfeillgar i feicio, neu offer beicio y gellir ei wisgo ar y ffordd i'r ysgol.

Ysbrydolwyd gan:

Swyddog Ysgol Sustrans.

Adnoddau dillad beicio defnyddiol

[Categoriâu Deunydd BBC Bitesize a nodweddio](#)

[Canllaw Dillad Beicio cwmni British Cycling](#)

[Adolygiad dillad Road CC](#)



Amser:

15 munud
(1 awr gydag estyniad)



Adnoddau:

[PowerPoint dillad beicio](#)

Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol
mawr/ siart troi a phapur
Taflen Waith dillad beicio



Gweithgaredd unigol/grŵp:

Y ddau



Cysylltiadau cwricwlwm

Gwyddoniaeth
a Thechnoleg





Wythnos Beicio i'r Ysgol 2021

27 Medi – 1 Hydref

Dillad Beicio

Rhestrwch nodweddion yr hoffech eich dillad beicio eu cael:

(er enghraifft, yn atal dŵr, yn anadlu, yn gallu ymestyn...)

Defnyddiwch y tabl yma i gymharu deunyddiau:

E.e. Lycra, cotwm, neilon neu wlân ayb

Deunydd	Anfantais	Mantais

Pa ddeunydd sydd orau ar gyfer yr haf?

Pa ddeunydd sydd orau ar gyfer y gaeaf?

Rhestrwch unrhyw nodweddion arbennig yr hoffech
iddynt fod yn berthnasol i'ch dillad beicio

gan gynnwys nodweddion gwella gwelededd neu i ymdopi ag amodau'r tywydd



Wythnos Beicio i'r Ysgol 2021

27 Medi – 1 Hydref

Dod i adnabod eich beic

Amcan

Dysgu ac adnabod amrywiol rannau beic yn gywir.

Amlinelliad o'r sesiwn

Rhowch becyn o labeli rhannau beic i bob grŵp neu ddisgybl, ynghyd â darn o blu-tac.

Gofyn i'r disgyblion drafod yr amrywiol rannau ar feiciau a ble maen nhw wedi'u lleoli yn eu tyb nhw.

Yna, caiff disgyblion gymryd tro'r un i osod label ar yr argraffiad o lun beic neu ar y beic arddangos.

Estyniad

Trafodwch fel grŵp a chanfod pa rannau o'r beic allai fod angen mwy o gynnal a chadw a pham.

All y dosbarth nodi rhai rhannau beic y dylid eu gwirio cyn defnyddio'r beic?

Ysbrydolwyd gan:

Gwers cynnal a chadw beiciau a gynhelir gan Swyddogion Ysgolion Sustrans.



Amser:

10 munud



Adnoddau:

Labeli rhannau beic

Blu-tac

Naill ai argraffiad o lun beic ar bapur A3 neu feic i'w ddefnyddio i ddangos



Gweithgaredd unigol/grŵp:

Y naill neu'r llall



Cysylltiadau cwricwlwm

Gwyddoniaeth a Thechnoleg






Wythnos Beicio i'r Ysgol 2021

27 Medi – 1 Hydref

Dod i adnabod eich beic

 Clamp sêr	Pont staesyn uchaf	Staesyn uchaf	Hongiwr gêrs	Staesyn
Ceg fachu/ cefn	Tiwb sêr	Tiwb uchaf	Tiwb pen	Braced gwaelod
Tiwb isaf	Colofn fforch	Coron y fforch	Llafn y fforch	Ceg fachu/ pen y fforch
Liferi gêrs	Handlenni	Berynnau'r pen	Stem	Sêr
Ffyrch gwasgedd	Teiar	Camog	Sbôcs	Both blaen
Pedal	Newidiwr blaen	Cranc	Set gadwyn	Olwyn gadwyn
Cadwyn	Brêc	Derailleur cefn	Sbrocedi cefn	Postyn sêr





Wythnos Beicio i'r Ysgol 2021

27 Medi – 1 Hydref

Cynllunio fy nhaith feicio

Amcan

Dysgu sut i ddefnyddio offer mapio amrywiol i gynllunio llwybrau beicio.

Defnyddiwch yr wybodaeth a ddysgwyd i gynllunio llwybr yn yr ardal leol (Estyniad).

Amlinelliad o'r sesiwn

Cyflwynwch y disgyblion i'r ddau offeryn cynllunio taith; Google Maps a Komoot.

Defnyddiwch y [PowerPoint cynllunio llwybr fy nhaith feicio](#) i ddarganfod y nodweddion allweddol a geir yn Google Maps a Komoot.

Disgyblion i edrych naill ai ar wahanol nodweddion yr offer cynllunio teithiau yn unigol neu mewn grŵp.

Cyngor doeth – os na all disgyblion gael gafael ar iPad neu liniadur yn y dosbarth, gallant edrych ar yr offer cynllunio taith gyda'i gilydd ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol.

Disgyblion i gwblhau'r daflen waith cynllunio fy nhaith feicio a thrafod manteision ac anfanteision offer cynllunio'r teithiau amrywiol.

Estyniad

Gall disgyblion gynllunio eu llwybr eu hunain gan ddefnyddio Google Maps a Komoot. Disgyblion i gofnodi eu canfyddiadau ar y daflen cynllunio fy nhaith feicio.

Ysbrydolwyd gan:

Swyddog Ysgol Sustrans.



Amser:

30 munud (1 awr gydag estyniad)



Adnoddau:

[PowerPoint a bwrdd gwyn rhyngweithiol cynllunio llwybr fy nhaith feicio](#)

Taflen waith cynllunio llwybr fy nhaith feicio

iPadiâu/gliniaduron gyda mynediad i'r we (mewn grwpiau neu mewn paru)



Gweithgaredd unigol/grŵp:

Yn ddibynnol ar adnoddau



Cysylltiadau cwricwlwm

Y Dyniaethau



Wythnos Beicio i'r Ysgol 2021

27 Medi – 1 Hydref

Cynllunio fy nhaith feicio

Google maps

Tair o nodweddion Google Maps yw: _____

Pum haen Google Maps yw: _____

Y nodwedd y buaswn i'n ei defnyddio i
gynllunio ar gyfer osgoi llygredd aer yw: _____

Y nodwedd fwyaf defnyddiol yn fy marn i yw: _____

Komoot

Tair o nodweddion Komoot yw: _____

Yr haenau yn Komoot yw: _____

Y nodwedd fwyaf defnyddiol yn fy marn i yw: _____

Cynllunio fy nhaith feicio (estyniad)

Gan ddefnyddio Google Maps a Komoot, cynlluniwch lwybr beicio yn eich ardal leol, gan ddefnyddio'r nodwedd a gynigir gan bob offer.

Mae'r llwybr yn mynd o _____ i _____.

Pellter y daith a ddewisais yw _____ km gyda graddiant o _____, a bydd yn cymryd _____ munud.

Pam wnaethoch chi ddewis y llwybr hwn? _____

Google maps

Sawl llwybr gwahanol y canfu Google Maps? _____

Sut wnaethoch chi benderfynu pa un i ddewis? _____

Wnaethoch chi unrhyw newidiadau i'ch llwybr? Os felly, pam? _____

A oes ffyrdd prysur ar hyd eich llwybr? (Gan ddefnyddio'r nodwedd traffig).
Allech chi eu hosgoi?

Komoot

A wnaeth Komoot argymhell taith wahanol? Beth oedd yn wahanol am y daith?

Wnaethoch chi unrhyw newidiadau i'ch llwybr? Os felly, pam? _____

Ydych chi'n mynd ar hyd unrhyw lwybrau beicio a pha rai? _____

A oedd unrhyw ran o'ch llwybr yn anaddas i feiciau penodol? Er enghraifft,
a fyddai arnoch angen beic mynydd ar gyfer darn 'oddi ar y ffordd?'

Pa un oedd eich hoff offeryn? Pam? _____



Wythnos Beicio i'r Ysgol 2021

27 Medi – 1 Hydref

Pa mor gyffredin yw fy nhaith i'r ysgol?

Amcan

Defnyddiwch y data i gymharu a chyferbynnu taith disgyblion i'r ysgol gyda theithiau pobl ifanc eraill.

Amlinelliad o'r sesiwn


Disgyblion yn defnyddio'r **daflen waith pa mor gyffredin yw fy nhaith i'r ysgol?** i edrych ar y data am deithiau i'r ysgol a sut mae eu dull teithio a hyd y daith yn cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol.

Y disgyblion mewn grŵp yn trafod y cwestiynau ar y **daflen waith pa mor gyffredin yw fy nhaith i'r ysgol**.

Disgyblion yn trafod beth ellir ei wneud i gynyddu nifer y bobl sy'n beicio i'r ysgol.

Ysbrydolwyd gan:

Swyddog Ysgol Sustrans.



Amser:

20 munud (1 awr gydag estyniad)



Adnoddau:

Bwrdd gwyn rhagweithiol neu Daflunydd

[PowerPoint – pa mor gyffredin yw fy nhaith i'r ysgol?](#)

Taflen waith y disgybl pa mor gyffredin yw fy nhaith i'r ysgol?



Gweithgaredd unigol/grŵp:

Y ddau



Cysylltiadau cwricwlwm

Mathemateg a Rhifedd





Wythnos Beicio i'r Ysgol 2021

27 Medi – 1 Hydref

Pa mor gyffredin yw fy nhaith i'r ysgol? Estyniadau

Estyniad 1 – Ethnigrwydd a'r Daith i'r ysgol

Edrychwch ar ddata'r amseroedd a gymer hi i grwpiau ethnig amrywiol deithio i'r ysgol. Ar gyfartaledd, mae amseroedd teithio i'r ysgol grwpiau ethnig gwahanol yn wahanol iawn.

Disgyblion i drafod gwahaniaethau mewn perchnogaeth car a lle mae pobl yn byw. [Dengys ystadegau'r llywodraeth](#) nad oes gan 19% o bobl y DU fynediad at gar

Defnyddiwch [Datashine](#) i edrych ar ddata'r cyfrifiad. Edrychwch i weld lle mae grwpiau ethnig yn byw.

Estyniad 2 – Pa mor bell rydych chi'n teithio?

Disgyblion i ddefnyddio [ap traveltime](#) i ganfod pa mor bell y gallant fynd o'r ysgol mewn taith 10 munud ac yna beicio am 10 munud.

Estyniad 3 – Cymdogaethau 15 munud

[Dangoswch y fideo](#) am gymdogaethau 15 munud.

Trafodwch a all eich cymuned leol fod yn gymdogaeth 15 munud?





Wythnos Beicio i'r Ysgol 2021

27 Medi – 1 Hydref

Pa mor gyffredin yw fy nhaith i'r ysgol? Taflen waith

Gall yr amser a dreulir yn teithio i'r ysgol fod y mwyaf diflas a rhwystredig o'ch diwrnod. Ond ar y llaw arall, gall fod yn gyfle i fod yn yr awyr agored, i sgwrsio gyda'ch ffrindiau a gweld mwy o'ch cymdogaeth. Mae'r modd y mae pobl yn teithio i'r ysgol yn amrywio dros y wlad o fysiau cyhoeddus yn dominyddu yn Llundain i geir preifat mewn ardaloedd gwledig mwy anghysbell.

Rydych yn un o fwy na 10 miliwn o blant ysgol y DU (9 miliwn yn Lloegr, 500,000 yng Nghymru, 700,000 yn yr Alban a 300,000 yng Ngogledd Iwerddon) sy'n gwneud taith yn ôl ac ymlaen o'ch cartref i'r ysgol bob dydd.

Sut, yn eich barn chi y mae eich taith chi i'r ysgol yn cymharu â theithiau pobl eraill?

Sut rydych chi'n teithio?

Pa fath o daith i'r ysgol sydd fwyaf cyffredin ledled ysgolion y DU?

Gan ddefnyddio'r rhifau isod, amcangyfrifwch pa ganran isod sy'n gweddu pob dull teithio.

1%	2%	4%	11%	37%	43%
Beic _____	Bws Preifat _____	Cerdded _____			
Bws Lleol _____	Car / Fan _____	Trên _____			



Wythnos Beicio i'r Ysgol 2021

27 Medi – 1 Hydref

Pa mor gyffredin yw fy nhaith i'r ysgol? Taflen waith

Trafodaeth:

Pam rydych chi'n meddwl bod y rhan fwyaf o bobl yn teithio fel hyn i'r ysgol?

Beth sy'n rhwystro pobl rhag beicio i'r ysgol?

Beth yn eich barn chi yw'r %au ar gyfer eich dosbarth neu ysgol?

Pa mor hir yw'r daith?

Mae'r daith i'r ysgol ar gyfartaledd yn cymryd 19 munud.

Defnyddiwch Google Maps i gyfrifo eich taith i'r ysgol a chwblhewch y tabl isod.

Amser fy nhaith	Ffrind 1	Ffrind 2	Ffrind 3	Ffrind 4	Ffrind 5	Ffrind 6	Cyfartaledd

Cyfrifwch eich cyfartaledd chi a 6 ffrind.

Sut mae'r cyfartaledd yn cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol?

Beth yw'r cymedr / canolrif / modd? Beth yw'r rhychwant?

Beth mae hyn yn ei ddweud wrthyf am y data?

Oes rhywbeth yn wahanol rhwng eich taith chi a thaith
eich ffrindiau o'i gymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol?